WWF

ADRODDIAD

CYMRU

2011

Newid hinsawdd | Cadwraeth | Cynaliadwyedd

# Cylawni Cymru un Blaned

## Ydi llywodraeth Cymru'n sicrhau Cymru un blaned, carbon isel?

# CRYNODEB

Cafodd Llywodraeth ddiwethaf Cynulliad Cymru ei chanmol am ei gweledigaeth feiddgar o 'Cymru Un Blaned'. Mae WWF Cymru wedi adolygu ei chynnydd hyd yma ac yn cynnig gweithredoedd allweddol i'r llywodraeth newydd i wireddu hyn a sicrhau bod Cymru'n un o'r arweinwyr wrth ddatblygu economïau cynaliadwy o gwmpas y byd.

Mae ar Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i hybu datblygu cynaliadwy. Cymerodd Llywodraeth ddiwethaf Cynulliad Cymru gamau breision tuag gyflawni'r ddyletswydd hon yn effeithiol.

Yn 2007, ar ddechrau Llywodraeth ddiwethaf Cynulliad Cymru, nododd WWF Cymru faint yr her ym maes cynaliadwyedd amgylcheddol yn ein hadroddiad *Cymru Un Blaned*[1] . Nododd yr adroddiad hwn yr angen i leihau ein hôl troed ecolegol 75% a'n hallyriadau carbon 80% erbyn 2050.

Ers hynny, mae Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig wedi rhybuddio bod yn rhaid i allyriadau byd-eang gyrraedd y brig erbyn canol y degawd hwn a hefyd bod yn gostwng yn sylweddol erbyn 2020 er mwyn i ni fod â rhagolwg rhesymol o sicrhau bod y codiad yn nhymheredd y byd yn llai na 2°C.

Rydym yn ffodus felly bod pob plaid wleidyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr tiriogaeth Cymru 40%, erbyn 2020.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati mewn ffordd ganmoladwy i fynd i'r afael â'r olion traed ecolegol a charbon trwy ei chynllun *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned*. Mae ganddi weledigaeth glir a mesuradwy y bydd pobl Cymru, o fewn un genhedlaeth, yn byw mewn ffordd gynaliadwy, gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear. Mae hefyd yn ein hymrwymo i ddefnyddio 80-90% yn llai o ynni sy'n seiliedig ar garbon dros yr un cyfnod, gan symud tuag at ddim gwastraff, llai o deithiau mewn ceir a bwyd mwy cynaliadwy, mewn cymdeithas decach.



MAE LLYWODRAETH CYMRU WEDI MYND ATI MEWN FFORDD GANMOLADWY I FYND I'R AFAEL Â'R OLION TRAED ECOLEGOL A CHARBON TRWY EI CHYNLLUN

Roedd cytundeb Cymru'n Un yn ein hymrwymo i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 3% bob blwyddyn ac mae'r strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd yn ymrwymo i'r targed o'u lleihau 40% erbyn 2020.

Mae'r ymrwymiadau hyn yn ganmoladwy ac mae'n glir eu bod yn gyson â'r raddfa y mae ei hangen.

### Fodd bynnag, pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud wrth gyflawni'r ymrwymiadau hyn?

I ateb y cwestiynau hyn, mae WWF Cymru wedi comisiynu ymchwil i edrych yn feirniadol ar y mecanweithiau polisi sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru. Gellir gweld yr adroddiad llawn gan Dr Alan Netherwood ar wales.wwf.org.uk/llywodraeth

### I grynhoi:

- Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth gyffredinol dda ac mae wedi gwneud cynnydd da gyda'r gweithredoedd tymor byr y mae eu hangen.
- Fodd bynnag, mae yna ddiffyg cymhwyso cyson i gyflawni nod Cymru Un Blaned, ar draws y llywodraeth a hefyd yn ei chyngor i'r sector cyhoeddus.
- Nid oes cynllun, gyda cherrig milltir allweddol, yn ysgogi gweithredu trawslywodraethol i gyrraedd nodau Un Blaned.
- Mae yna ddiffyg asesu effaith polisïau, rhaglenni a gwariant unigol a'u heffaith gronnol ar yr olion traed carbon ac ecolegol. Felly, mae'n amhosibl i lywodraeth Cymru wybod a yw ei chynlluniau a'i rhaglenni'n ddigon i gyflawni'r nodau.

1 Ravetz J, Bond S, Meikle A (2007); One Planet Wales, Surrey, WWF - UK

# ARGYMHELLION WWF CYMRU AR GYFER GWEITHREDU I LYWODRAETH NEWYDD CYMRU

Bydd angen i'r llywodraeth newydd weithredu yn wyneb gwrthdrawiadau a chyfyngiadau byd-eang cynyddol ar ddefnyddio tir a dŵr, gan gynnwys tensiynau rhwng bwyd i boblogaeth sy'n cynyddu, cadwraeth natur a ffyrdd eraill o ddefnyddio tir, megis cynhyrchu biodanwyddau. Bydd adnoddau naturiol fwyfwy prin, y mae llawer ohonynt yn cael eu gorecsbloetio eisoes (megis pysgod) yn parhau i wthio prisiau i fyny. Bydd yr holl densiynau hyn yn cynyddu'n fawr wrth i'r newid yn yr hinsawdd ymsefydlu.

Mae hyn yn bygwth ffyniant dinasyddion Cymru, yn arbennig y rhai lleiaf cefnog, ac yn bygwth hyfywedd busnesau Cymru.

Er mwyn lliniaru'r tueddiadau byd-eang hyn, rhaid i ni:

- Leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 40% erbyn 2020.
- Cydnabod ei bod yn bosibl na fydd uchelgais y Llywodraeth flaenorol i sefydlogi ein hôl troed erbyn 2020 yn ddigon.

**Dim ond naw mlynedd i ffwrdd yw 2020.**
**Mae'n hanfodol cyflawni'r nod yn y 5 mlynedd nesaf.**

Ond mae'r hinsawdd wleidyddol yng Nghymru, ar yr amod bod Llywodraeth Cymru'n cadw at ei hymrwymiadau, yn iawn i Gymru arwain trwy esiampl. Mae pwerau newydd yn cynnig posibiliadau newydd i wneud gwahaniaeth.

Nawr yw'r amser i gyflawni'r newidiadau mawr o ran polisi a buddsoddiad y mae eu hangen i ddod yn Gymru Un Blaned.

## GELLIR CRYNHOI ARGYMHELLION WWF CYMRU YN Y PEDWAR PWYNT CANLYNOL

1. **Ei gwneud yn glir, o'r brig** - bod lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 40% erbyn 2020 a sefydlogi a lleihau'r ôl troed ecolegol yn nodau blaenoriaethol i'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus i gyd.
2. **Ysgogi cyflawni'r** nodau hyn, trwy holl brosesau llunio polisi a gwneud penderfyniadau ariannol.
3. **Gwneud pobl yn atebol yn glir** am eu cyflawni.
4. **Adrodd yn rheolaidd ar effeithiau cyffredinol** cyflawni polisi a gwariant.




© Steve Morgan / WWF-UK

## 1 Ei gwneud yn glir, o'r brig

Roedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru egwyddor gynhaliol y "bydd ein holl bolisïau yn dangos sut y byddwn yn lleihau Ôl Troed Ecolegol Cymru i weithio tuag at ein gweledigaeth". Mae'r adroddiad yn dangos rhai meysydd polisi hanfodol lle nad oedd hyn yn wir. Daeth patrwm i'r amlwg sef bod Llywodraeth Cymru'n datblygu a hybu arfer da ond yn methu â phrif ffrydio Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned i waith cydweithredol a meysydd polisi strategol pwysig iawn.

**ARGYMHELLIAD 1** Dylai Prif Weinidog Cymru ail-gadarnhau ymrwymiad y llywodraeth i'r nodau hyn ac egluro'n bersonol y flaenoriaeth sydd i gael ei rhoi iddynt, gan sicrhau bod yr holl Weinidogion, eu hadrannau a chyrff statudol yn glir ynghylch eu dyletswydd i gyflawni'r nodau hyn. Dylai'r cabinet i gyd gadarnhau statws y cynllun datblygu cynaliadwy fel strategaeth drosfwaol i'r Llywodraeth wrth ei chyhoeddi.

**ARGYMHELLIAD 2** Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddefnyddio ei bwerau deddfu newydd i gryfhau'r ddyletswydd i gyflawni datblygu cynaliadwy, gan ei wneud yn brif egwyddor drefniadol y llywodraeth.

**ARGYMHELLIAD 3** Dylai Llywodraeth Cymru wreiddio Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yn gyson fel egwyddor allweddol yn ei holl drafodaeth gyda'r sector cyhoeddus, llywodraeth leol, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a'r sector iechyd, yn arbennig fel rhan o agenda diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus.



MAE RHOI CYMRU AR DRYWYDD CYNALIADWYEDD YN GALW AM NEWID AR DRAWS CYMDEITHAS GYFAN CYMRU AC YM MHOB SECTOR O'N HECONOMI

## 2 Ysgogi cyflawni'r nodau

Mae rhoi Cymru ar drywydd cynaliadwyedd yn galw am newid ar draws cymdeithas gyfan Cymru ac ym mhob sector o'n heconomi. Bydd y newid sylweddol y mae ei angen i wynebu her Un Blaned, ac i fod ar flaen y gad ymysg cenhedloedd carbon isel, yn galw am weithredu cydlynol a chydgysylltiedig ar draws holl bortffolios y Llywodraeth ac am ddefnyddio'r holl ddylanwad sydd gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd ymagwedd Un Blaned yn cael ei mabwysiadu'n awtomatig trwy'r mecanweithiau polisi sy'n bodoli eisoes a busnes fel arfer. Bydd gwreiddio'r ymagwedd hon ochr yn ochr â datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol yn allweddol. Mae angen i rywbeth yrru'r cysyniad yn ei flaen. Mae angen cynllun i ddarparu trosolwg o ble yw'r man gorau i ganolbwyntio ein hymdrechion.

Fel digwyddodd gyda'r targed i leihau nwyon tŷ gwydr 3% bob blwyddyn o dan y llywodraeth ddiwethaf, dylai fod yn ofynnol i bob adran ddarparu cynllun ar gyfer cyrraedd ei rhan hi o'r targed i leihau'r ôl troed.

Dylai cynlluniau newid hinsawdd ac Un Blaned ddarparu'r un lefel o atebolrwydd a thryloywder â Chynllun Gweithredu Llywodraeth yr Alban ar Garbon, sy'n cynnwys llinellau sylfaen clir ar gyfer allyriadau ym mhob sector a'r gostyngiadau penodol mewn allyriadau a ddisgwylir ar gyfer pob polisi, ynghyd â chrynodeb o'r costau a'r buddion. Gellid mabwysiadu ymagwedd debyg ar gyfer effaith ar yr ôl troed ecolegol.

**ARGYMHELLIAD 4** Dylid gwneud uned gyflawni Prif Weinidog Cymru yn gyfrifol am sicrhau y cyrhaeddir targedau 2020 ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr a lleihau'r ôl troed. Dylai helpu pob Gweinidog i ganolbwyntio ar gyflawni nodau Un Blaned.

**ARGYMHELLIAD 5** Bod Trywydd Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yn cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd ac eraill i godi'r cysyniad o fod yn uchelgais i fod yn rheidrwydd ar gyfer adrannau a phartneriaethau'r llywodraeth, gyda thargedau a gwaith mesur clir. Bydd hyn yn cynorthwyo ag adrodd, craffu ac atebolrwydd.

## 3 Gwneud pobl yn atebol yn glir

**ARGYMHELLIAD 6** Dylai lleihau'r ôl troed a lleihau carbon yn unol â Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (neu gynllun datblygu cynaliadwy fydd yn ei olynu) fod yn rhan orfodol o'r fframweithiau rheoli perfformiad i Lywodraeth Cymru, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol a mentrau a ariennir gan Lywodraeth Cymru mewn gwahanol feysydd polisi. Hefyd, dylai cyflawni'r nodau hyn fod yn rhan o'r mesuriadau perfformiad i uwch weision sifil.

Mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei holl bwerau a meysydd dylanwad i hybu'r agenda hon, gan ddylanwadu ar y sector preifat, yn ogystal â'r sector cyhoeddus, trwy bob modd, gan gynnwys eu gwariant ariannol. Mae amodau cymorth grant a chaffael cynaliadwy i gyd yn hanfodol i gyflawni'r maint o newid y mae ei angen. Rhaid i weinidogion sicrhau bod gwariant yn cyflawni canlyniadau.

**ARGYMHELLIAD 7** Dylai Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus, fel rhan o'u pwerau caffael, ddangos pa mor effeithiol mae 'Punt Cymru' a'r Ewro (trwy WEFO ac arian strwythurol yr Undeb Ewropeaidd) yn cyflawni ym maes lleihau'r ôl troed a charbon a chyhoeddi cyfrif blynyddol ochr yn ochr â'r adroddiadau ariannol gofynnol.

**ARGYMHELLIAD 8** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio, gyda Chomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, i'r potensial am system o gyfrifo carbon cenedlaethol i gyd-fynd â'r systemau adroddiadau ariannol a bod yn rhan ganolog o fframwaith rheoli perfformiad Cymru. Byddai hyn yn cynnwys asesiad o effeithiolrwydd yr Ymrwymiad Lleihau Carbon.



WEDI SEFYDLU'R NODAU, MAE'N HANFODOL I BRIF WEINIDOG CYMRU ROI ADRODDIAD BLYNYDDOL I'R CYNULLIAD AR Y CYNNYDD TUAG ATYNT

## 4 Adrodd yn rheolaidd ar y cynnydd a'r effaith.

Wedi sefydlu'r nodau, mae'n hanfodol i Brif Weinidog Cymru roi adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar y cynnydd tuag atynt. Rhaid iddo hefyd ddal ei weinidogion, penaethiaid y gwasanaeth sifil a phrif weithredwyr cyrff cyhoeddus eraill yn atebol am eu cyflawni.

Mae'n bosibl y bydd hyn yn gofyn am ddatblygu dulliau cyfrifyddol a modelu effeithiau tebygol polisi a rhaglenni yn y dyfodol. Nid yw'n ddigon gwneud hyn ar gyfer polisïau unigol yn unig ond mae angen asesu effaith gronnol debygol yr holl weithgarwch a gwariant. Heb hyn, byddwn yn dal i fod yn ansicr a yw'r lefel o weithgarwch yn ddigon i gyflawni'r nodau.

**ARGYMHELLIAD 9** Dylai'r adroddiad blynyddol ar y cynllun datblygu cynaliadwy ddarparu manylion mwy sylweddol am y cynnydd a dylai'r Cynulliad graffu arno'n fwy. Bydd yna well graffu cyhoeddus os bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n darparu archwiliad annibynnol o'r cynnydd yn erbyn y Cynllun, ac os caiff y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd ei gomisiynu i ddarparu dogfennau craffu manylach a gaiff eu cyhoeddi ar y graddau y bydd allyriadau'n cael eu lleihau. Dylai pob Gweinidog fod yn gyfrifol am asesu effaith ei bortffolio, yn erbyn y nodau hyn.

**ARGYMHELLIAD 10** Dylai adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â thynnu sylw at arfer da, roi sylwadau ar effaith gronnol mentrau, a maint yr ymyrraeth y mae ei hangen o hyd i wireddu dyhead Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned.

**ARGYMHELLIAD 11** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn asesu lleihau ôl troed a lleihau carbon yn yr holl strategaethau a pholisïau arfaethedig cyn eu rhoi ar waith, fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

# WWF CYMRU

Gadewch i ni sicrhau fod arferion da yn ganolog ledled y llywodraeth a'r sector cyhoeddus, sy'n cydnabod yr anghenraid sylfaenol i fyw o fewn terfynau amgylcheddol, mewn byd lle mae pobl a natur yn fynnu.



© Steve Morgan / WWF-UK

# CASGLIADAU

## Ydyn ni ar y trywydd iawn i ddod yn genedl Un Blaned, carbon isel?

## "Wyddon ni ddim" yw'r ateb byr. Ond "mae'n bosibl" yw'r ateb tebygol.

Gallwn longyfarch y Llywodraeth ddiwethaf ar osod rhai nodau clir ar gyfer cenedl sy'n gynaliadwy'n amgylcheddol ac ar greu llawer o'r fframwaith polisi i gyflawni hyn.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes unrhyw dystiolaeth mai'r effaith gronnol yw'r hyn y mae ei angen.

Mae angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu ymagwedd gyson at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a'r ôl troed ecolegol. Hyd nes y gwneir hyn, a hyd nes defnyddir mesur cyson o effeithiolrwydd polisi, yr hyn sydd gennym yw set amrywiol o bolisïau sydd, gobeithiwn, yn ein hanfon yn fras ar hyd llwybr mwy cynaliadwy.



FODD BYNNAG, AR HYN O BRYD NID OES UNRHYW DYSTIOLAETH MAI'R EFFAITH GRONNOL YW'R HYN Y MAE EI ANGEN

Yr hyn sy'n glir o ddadansoddiad a gomisiynwyd gan WWF yw bod gan Lywodraeth Cymru doreth o offer y gall eu defnyddio i ddylanwadu ar 'Dîm Cymru' i fynd i'r cyfeiriad iawn tuag at Gymru Un Blaned, ac i ymestyn ei dylanwad y tu hwnt i ffiniau Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod arnom angen mesurau, strategaeth a threfniadau llywodraethu i farnu a yw'r offer hyn yn cael eu defnyddio'n ddigon effeithiol, yn ddigon buan.

Dylid llongyfarch Llywodraeth Cymru ar osod datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol y llywodraeth trwy'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy ac am fod mor gadarn wrth osod targedau bras ar gyfer lleihau'r ôl troed - "byw un blaned o fewn un genhedlaeth". Y flwyddyn nesaf bydd y byd yn dod ynghyd yn uwchgynhadledd fyd-eang Rio + 20. Mae yna gyfle i Gymru arddangos ei chynnydd, rhannu'r gwersi a ddysgwyd, gosod y nod ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf a chael lle fel un o arweinwyr y byd y maes datblygu cynaliadwy.

Bydd y 5 mlynedd nesaf yn hanfodol i'n dyfodol byd-eang. Felly mae'n hollbwysig i dymor nesaf y Cynulliad gyflawni cynnydd gwirioneddol. Hefyd, gyda'i bwerau newydd i ddeddfu, gallai'r Cynulliad fod ar flaen y gad yn fyd-eang trwy gryfhau a gwreiddio ei ddyletswydd o ran datblygu cynaliadwy.

**Awn i Rio, gyda deddfwriaeth ar y llyfrau, ac arfer da wedi'i gwneud yn ganolog ledled y Llywodraeth a'r sector cyhoeddus, sy'n cydnabod yr anghenraid sylfaenol i fyw o fewn terfynau amgylcheddol, mewn byd lle mae pobl a natur yn ffynnu.**

### Atodiad 1. Canfyddiadau allweddol

Dyma'r cwestiynau allweddol y ceisiasom eu hateb:

- Ydi'r polisïau allweddol yn bodoli i sefydlogi'r ôl troed ecolegol erbyn 2020; lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr tiriogaeth Cymru 40% erbyn 2020 a dechrau gwneud y newidiadau strwythurol mawr, ond araf, y mae eu hangen i fod yn genedl Un Blaned erbyn 2050?[2]
- Ydi holl adrannau allweddol y llywodraeth a'r sector cyhoeddus wedi dechrau gwneud y newidiadau hyn? Ai datblygu cynaliadwy bellach yw prif egwyddor drefniadol y Llywodraeth? Pa gynnydd a fu ar hyn ers adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2010?

Mae'n glir o'r dystiolaeth a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn fod llawer o waith rhagorol wedi cael ei wneud i ddatblygu mecanweithiau, polisïau a gweithredoedd statudol ac ariannol i ddatblygu'r gwaith o leihau'r ôl troed. Fodd bynnag, nid oes gennym syniad clir o'r graddau mae hyn yn mynd â ni i'r cyfeiriad iawn – os yw'n gwneud hynny o gwbl. Rydym yn pwysleisio bod llawer o'r rhagofynion a nodwyd gan WWF yn 'Cymru Un Blaned' i leihau'r ôl troed yn y tymor byr erbyn 2011 yn bodoli yn y saernïaeth polisi, os ydynt yn cael eu gweithredu'n effeithiol, ac os byddant yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol, ac os yw eu heffaith gronnol wedi'i chymryd i ystyriaeth.

Mae yna rai meysydd polisi nodedig lle mae Llywodraeth Cymru'n gwneud cynnydd ardderchog wrth greu'r amgylchiadau ar gyfer lleihau'r ôl troed, lle mae syniad terfynau ecolegol a defnyddiaeth gynaliadwy'n amlwg mewn polisi ac mae mecanweithiau ar gyfer ymyrryd a lleihau'r ôl troed yn dra datblygedig. Mae'r rhain yn peri gobaith ac maent yn cynnwys:

- Bwyd ac Amaethyddiaeth – mae'r Strategaeth Fwyd – Bwyd i Gymru: Bwyd o Gymru a'r Strategaeth Ffermio yn enghreifftiau ardderchog o bolisi blaengar, wedi'i seilio ar ymchwil a thystiolaeth dda, gyda datblygu cynaliadwy a syniad byw Un Blaned wedi'u gwreiddio'n gadarn yn ei nodau lefel uchel a'i manylion
- Ynni – mae amrywiaeth fawr o ymyriadau polisi i leihau carbon ac wedyn lleihau'r ôl troed yn cael eu nodi yn Chwyldro Carbon Isel - Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd

2 Coleman, J. (2010) Sustainable development and business decision making in the Welsh Assembly government report prepared by auditor general for Wales. Wales audit office

- Gwastraff – lle mae strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned 2009-2050 yn cynnwys targedau lleihau ôl troed i wahanol sectorau, a pherthynas glir rhwng dadansoddi ôl troed yn y gorffennol ac ymyriadau polisi.
- Y Sector Cyhoeddus – cynnydd gan y GIG yng Nghymru i fesur a lleihau ei ôl troed carbon a'r hwb mae Llywodraeth Cymru'n ei roi i lywodraeth leol trwy'r Fframwaith a'r Cytundebau Canlyniadau ym maes Datblygu Cynaliadwy.

Fodd bynnag, ar sail y dogfennau a adolygwyd fel rhan o'r adroddiad hwn, mae yna rai pethau sy'n peri pryder, lle nad yw Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yn ymddangos yn y drafodaeth bolisi. Yn aml yn y meysydd hyn mae neges gref ynglŷn â chynaliadwyedd mewn polisi ar frig yr hierarchaeth bolisi, ond mae'r negeseuon hyn yn cael eu glastwreiddio ymhellach i lawr y 'goeden bolisi'. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu Economaidd lle mae'r newid allweddol i bolisi gan Lywodraeth ddiwethaf Cymru, Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd wedi methu â gwneud lleihau'r ôl troed a defnyddiaeth gynaliadwy yn unol â Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yn rhan o'i weledigaeth, cynllun gweithredu a gwaith monitro.
- Trafnidiaeth, lle mae'r hierarchaeth polisi, gan gynnwys Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r rhaglenni cyfalaf yn methu â dangos sut y gellid lleihau ôl troed Trafnidiaeth.
- Y Sector Cyhoeddus, lle collwyd cyfleoedd i daro'r nod gydag agenda Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned yn y drafodaeth ddiweddar, gan gynnwys y Mesur Llywodraeth Leol, canllawiau i Fyrddau Gwasanaethau Lleol ac Adolygiad diweddar Sergeant o wasanaethau cyhoeddus "Local, Regional, National: What services can be delivered where? " (2011)
- Tai, lle mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd yn y Strategaeth Dai ei bod yn mabwysiadu gweledigaeth Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned neu fecanweithiau ar gyfer lleihau ôl troed Adeiladu/Tai, er gwaethaf cynnydd wrth ddatganoli Rheoliadau Adeiladu i Gymru

**Cyflawni yw arwyddair Llywodraeth newydd Cymru. Rydym yn ei hannog i roi cyflawni Cymru Un Blaned ar ben ei rhestr.**